national **dance**
company **wales**
cwmni **dawns**
cenedlaethol **cymru**

**Ail Gynllun Cydraddoldeb Strategol Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru (CCS2) 2021 - 2024**

Mabwysiadwyd gan y bwrdd ymddiriedolwyr ar 23 Ebrill 2021

## Rhagair

I bob un ohonom yn y sector dawns, yn yr un modd â'r sector diwylliannol ehangach, mae hon yn adeg o newid dynamig a brys. Mae Covid-19 wedi'i gwneud yn ofynnol i ni ailfeddwl yn gyflym ein ffordd o weithio. Mae'r ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys wedi tynnu sylw at anghydraddoldebau systemig, ac mae ymddangosiad #WeShallNotBeRemoved wedi rhoi llais i'r rheiny yn ein cymdeithas sydd wedi'u gosod ar yr ymylon.

Rydym yn ymroddedig i bolisi cyfle cyfartal ac wedi rhoi nifer o fentrau newydd ar waith sy'n cael eu hamlinellu yn y Strategaeth hon. Yn ogystal, rydym yn mewnosod y gwerthoedd hyn yn sut ydym yn ymddwyn fel cyflogwr a sut ydym yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

Datblygwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 - 2020 cyntaf i ymateb i'r gofyniad cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Roedd hwn yn rhoi mwy o ddiogelwch i unigolion rhag gwahaniaethu annheg ac yn gosod safon i'r rheiny sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus i drin pawb gydag urddas a pharch. Mae ein hail Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2 (CCS 2) 2021-2024 yn gosod ein penderfynoldeb i leihau anghydraddoldeb yn ein sefydliad yn ogystal ag yn y gymdeithas. Mae'n arddangos ein hymrwymiad parhaus i dorri i lawr y rhwystron a mynd ati i greu cyfleoedd cyfartal mewn bywyd.

Cafodd CCS2 ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y bwrdd ar 23 Ebrill 2021 ac mae'n amlinellu sut y byddwn yn adeiladu ar ein cynllun cydraddoldeb ac amrywiaeth blaenorol a'n trefniadau ar gyfer bodloni'r dyletswyddau deddfwriaethol newydd.

Enw'r Cadeirydd
Jane McCloskey

Enw'r Prif Swyddog Gweithredol
Paul Kaynes

**Cyflwyniad**

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn wedi'i ddiweddaru i arddangos ymrwymiad CDCCymru i fodloni Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, a ddaeth i rym yn 2011. Yn ogystal, mae'n arddangos cysylltiadau â deddfwriaethau a rheoliadau eraill sy'n ymdrin â materion yr Iaith Gymraeg a Hawliau Dynol ac yn cefnogi 6 o'r 7 nod dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru. Mae gan y Cwmni Bolisi Iaith Gymraeg ar wahân sy'n cael ei gadarnhau gan y bwrdd yn flynyddol.

Credwn fod cyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb a thegwch wrth wraidd popeth a wnawn yng Nghwmni Dawns Cenedlaethol Cymru ac rydym yn cydnabod bod newid diwylliannol yn ofynnol er mwyn i ni wneud newid ystyrlon, a byddwn yn amlinellu'r ymrwymiadau hyn yn ein Contract Diwylliannol â Chyngor Celfyddydau Cymru. Bydd yn ein gweld yn ymgynghori ag eraill i'n helpu i amlygu meysydd lle mae angen i ni wneud y newidiadau hyn er mwyn gwneud cynnydd. Dymunwn fod yn fodelau rôl i'r bobl ifanc rydym yn gweithio â nhw, gan greu amgylchedd hyderus lle gellir gweld cydraddoldeb a chynrychiolaeth ym mhob gwaith a wnawn.

Rydym yn ymroddedig i gyflawni gwell cydraddoldeb fel cyflogwr yn ogystal â sicrhau bod **pawb** yng Nghymru yn cael cyfleoedd cyfartal i gael mynediad at ddawns. Bydd CDCCymru yn ceisio sicrhau nad oes neb yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd bod ganddo nodwedd warchodedig.

Yn CCS2 (2021-2024), rydym yn amlinellu amcanion cydraddoldeb newydd yn erbyn bob un o'r nodweddion gwarchodedig - yn ogystal â datblygu'r cyflawniadau a wnaed yn CCS1 (2016-2020). I gyflawni'r cynllun hwn, bydd angen i CDCCymru weithio ar y cyd â lleoliadau, gwyliau, a Chyngor Celfyddydau Cymru i sicrhau bod data perthnasol a phriodol yn cael ei gasglu a'i rannu. Bydd y cynllun hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli, a'i ddiweddaru â chynnydd bob 6 mis. Ei fwriad yw bod yn gynllun byw, dynamig sy'n arwain ein gweithgareddau, yn cofnodi dysgu, llwyddiannau, a heriau, ac yn dod o hyd i ddatrysiadau newydd wrth i ni barhau â'n taith i ddod yn sefydliad mwy amrywiol byth.

Ysgrifennwyd y ddogfen hon yng nghanol argyfwng Covid-19 ac fel y cyfryw gall mesurau ymbellhau'n gymdeithasol gael effaith ar gyflawniad rhai o'r targedau recriwtio ac roedd rhaid i ni addasu amseroedd y gweithgareddau hynny i adlewyrchu heriau recriwtio yn yr hinsawdd ansicr hon.

**Trosolwg o CDCCymru**

Mae Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru yn creu gwaith dawns gyda phob math o bobl, mewn pob math o leoedd. Mae'r Cwmni'n cyflwyno ei waith mewn gwahanol fformatau a chyd-destunau ledled Cymru a ledled y byd. Rydym yn credu y cyflawnir mwy o amrywiaeth pan gaiff ei mewnosod yn niwylliant a gwerthoedd sefydliadau. Dylai cyflogwyr ac aelodau'r bwrdd ystyried yn ofalus yr effaith ar amrywiaeth a chydraddoldeb wrth wneud pob penderfyniad. Ein huchelgais yw cyflawni newid ar raddfa eang; rydym eisiau i bawb fod yn angerddol ac ymroddedig i amrywio'r sefydliad a'r byd dawns a bod yn ymwybodol o rwystrau rhag gwneud hynny.

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Roedd dau brif ddiben dros gyflwyno Deddf Cydraddoldeb 2010: cysoni deddf gwahaniaethu a chryfhau'r ddeddf gyfredol i gefnogi cynnydd o ran cydraddoldeb. Mae gan gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru ddau brif gyfrifoldeb dan y Ddeddf. Yn gyntaf, darparu gwasanaethau i'r cyhoedd a/neu ymarfer swyddogaethau cyhoeddus, rhaid i ni beidio â gwahaniaethu, aflonyddu neu fod yn annheg tuag at unigolyn sydd â 'nodwedd warchodedig', boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Yn ail, cyflwynodd y Ddeddf un ddyletswydd cydraddoldeb gyffredin yn y sector cyhoeddus i ddisodli'r dyletswyddau cydraddoldeb hil, anabledd a rhyw. Daeth y ddyletswydd hon i rym fis Ebrill 2011 a'i nod yw sicrhau cysondeb ar draws yr holl agweddau ar gydraddoldeb. Fel yr awdurdodau cyhoeddus, mae CDCCymru yn ymrwymedig i weithio tuag at nodau cyffredin i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth

- sicrhau cyfle cyfartal gwell rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd.

Y Nodweddion Gwarchodedig

Oed
Lle cyfeirir at hyn, cyfeirir at unigolyn o oedran penodol (e.e. pobl 32 oed) neu ystod o oedrannau (e.e. pobl 18-30 oed). Yn sgil Deddf Cydraddoldeb 2010, cyflwynwyd materion Oedran yn unol â nodweddion gwarchodedig eraill i ddechrau, gyda darpariaethau ychwanegol yn dod i rym fis Ebrill 2012. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus i ystyried anghenion pobl o bob oedran wrth ddylunio a darparu gwasanaethau a darparu nwyddau a chyfleusterau. Bydd hyn yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ystyried anghenion plant, pobl ifanc, oedolion ieuengach a hŷn.

Anabledd
Mae gan unigolyn anabledd os oes ganddo gyflwr corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn hwnnw i wneud gweithgareddau arferol, dyddiol. Mae sylweddol yn golygu'r gwrthwyneb i ddibwys neu fach, ac mae hirdymor fel rheol yn golygu o leiaf 12 mis. Mae gweithgareddau dyddiol yn cynnwys pethau fel mynd o gwmpas eich cartref neu weithle heb unrhyw anhawster mawr, gallu cofio eich gwaith a chanolbwyntio arno, a mynd ati i fod yn aelod o'r teulu, cyfaill, cydweithiwr neu gymudwr fel unrhyw un arall.  Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn hawliau pobl anabl i sicrhau bod ganddynt yr un hawliau â phobl sydd heb anabledd. Mae model cymdeithasol anabledd yn seiliedig ar yr egwyddor bod anabledd yn cael ei achosi gan y ffordd mae cymdeithas wedi'i threfnu, yn hytrach na nam neu wahaniaeth yn yr unigolyn. Mae cymdeithas yn creu rhwystrau sy'n 'analluogi' pobl rhag cymryd rhan yn llawn ac ar sail gyfartal ag eraill ac er mwyn cyflawni cydraddoldeb, mae angen adnabod a chael gwared ar y rhwystrau hyn.

Yn aml caiff anabledd ei ystyried yn negyddol gan ei fod yn canolbwyntio ar hynny nad yw unigolyn yn gallu ei wneud yn hytrach na beth mae'n gallu ei wneud. Mae rhai pobl yn teimlo ei fod yn label sy'n diffinio eu hunaniaeth: 'unigolyn anabl' yn hytrach nag unigolyn sy'n digwydd bod yn anabl ac felly gallant deimlo'n amharod i ystyried eu hunain fel unigolion anabl. Yn ogystal, mae'n bosibl nad yw rhai pobl yn teimlo bod eu hamgylchiadau yn cael eu cynnwys fel anabledd neu eu bod yn anabl o'u herwydd.  Nid yw nifer o bobl fyddar sy'n defnyddio iaith arwyddion Prydain yn ystyried eu hunain yn anabl, yn hytrach fel defnyddwyr iaith leiafrifol. Yn hytrach na chynnwys rhestr o gyflyrau ac anableddau yr ymdrinnir â nhw, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ystyried effaith cyflwr i bennu a yw'n anabledd i unigolyn penodol ai peidio.

Ailbennu rhywedd
Y broses o drosglwyddo o un rhyw i'r llall. Mae ailbennu rhywedd yn broses bersonol, gymdeithasol ac weithiau meddygol lle caiff ymddangosiad rhywedd unigolyn (y ffordd mae'n ymddangos i eraill drwy newid priodoleddau ffisiolegol neu nodweddion rhyw eraill) ei newid. Mae unrhyw un sy'n bwriadu, yn dechrau neu wedi cwblhau proses i newid ei rywedd yn cael ei warchod rhag gwahaniaethu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Nid oes rhaid i unigolyn fod yn destun goruchwyliaeth feddygol er mwyn cael ei warchod. Felly, er enghraifft, byddai cyflogai benywaidd sy'n penderfynu byw fel dyn heb ymgymryd ag unrhyw brosesau meddygol yn cael ei gwarchod. Gwahaniaethu yw trin pobl drawsrywiol yn llai ffafriol am fod yn absennol o'r gwaith oherwydd eu bod yn bwriadu ymgymryd â phroses ailbennu rhywedd, yn mynd drwyddi ar hyn o bryd, neu wedi mynd drwyddi, mewn cymhariaeth â sut y byddent yn cael eu trin petaent yn absennol oherwydd salwch neu anaf personol, neu petaent yn absennol am unrhyw reswm arall.

Priodas ac ymestyn priodas i gyplau o'r un rhyw
Mae'n anghyfreithlon i gyflogwyr ac eraill wahaniaethu yn erbyn cyflogeion sy'n berthnasol i un o'r categorïau hyn (priodas ac ymestyn priodas i gyplau o'r un rhyw). Yn 2012, cyhoeddodd Llywodraeth y DU newidiadau deddfwriaethol a fyddai'n cyflwyno deddfwriaeth priodas o'r un rhyw yn unol â phriodasau heterorywiol yng Nghymru a Lloegr.  Gan ystyried yr addasiad deddfwriaethol hwn, rhaid i gyflogwyr ymdrin â phriodasau o'r un rhyw yn yr un modd â phriodasau heterorywiol. Rhaid i unrhyw fanteision a roddir i gyflogeion mewn priodas heterorywiol gael eu cynnig i gyflogeion mewn priodas o'r un rhyw hefyd, gan gynnwys gweithio'n hyblyg, tâl tadolaeth statudol, absenoldeb tadolaeth a mabwysiadu.

**Beichiogrwydd a mamolaeth**

Beichiogrwydd yw'r cyflwr o fod yn feichiog neu ddisgwyl babi. Mae mamolaeth yn cyfeirio at y cyfnod ar ôl yr enedigaeth ac yn gysylltiedig ag absenoldeb mamolaeth yn y cyd-destun cyflogaeth. Yn y cyd-destun nad yw'n ymwneud â gwaith, mae diogelwch rhag gwahaniaethu ar sail mamolaeth yn para 26 wythnos ar ôl rhoi genedigaeth, ac mae hyn yn cynnwys trin menyw yn llai ffafriol oherwydd ei bod yn bwydo ar y fron. Caiff menyw ei diogelu rhag gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth yn ystod cyfnod ei beichiogrwydd ac unrhyw gyfnod mamolaeth statudol y mae ganddi hawl iddo, ac eithrio dan rhai agweddau o'r Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. Yn y cyfnod hwn, nid yw gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth yn cael ei drin fel gwahaniaethu ar sail rhyw.

**Hil**

Mae hil yn cyfeirio at grŵp o bobl sy'n cael eu diffinio gan eu cenedligrwydd (gan gynnwys dinasyddiaeth), neu eu gwreiddiau ethnig neu genedlaethol. Hiliaeth yw'r gred bod y ffactorau genetig sy'n ffurfio hil yn brif benderfynydd nodweddion a galluoedd dynol a bod gwahaniaethau hiliol yn cynhyrchu rhagoriaeth gynhenid hil benodol. Fel rheol mae hiliaeth yn ymdrin â phob ffurf o ragfarn, trais, atgasedd, gwahaniaethu a gormes ar sail hil ac yn gred neu ideoleg bod pob aelod o bob grŵp hiliol yn meddu ar nodweddion neu alluoedd sy'n benodol i'r hil honno, yn enwedig ei wahaniaethu fel naill ai'n rhagori ar grŵp hiliol arall neu'n israddol i grŵp hiliol arall. Dan amgylchiadau hynod gyfyngedig, mae rhai swyddi sy'n gallu ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y swydd fod o grŵp hiliol penodol. Gelwir hyn yn 'ofyniad galwedigaethol'. Un enghraifft yw pan mae deiliad y swydd yn darparu gwasanaethau llesiant personol i nifer gyfyngedig o bobl a gellir darparu'r gwasanaethau hynny yn fwyaf effeithiol gan unigolyn o grŵp hiliol penodol oherwydd anghenion a sensitifeddau diwylliannol.

**Crefydd a chred**

Mae crefydd yn golygu ei ystyr arferol, ond mae cred yn golygu credoau crefyddol ac athronyddol, gan gynnwys diffyg cred (e.e. Anffyddiaeth). Yn gyffredinol, dylai cred effeithio ar eich penderfyniadau mewn bywyd neu'r ffordd yr ydych yn byw er mwyn ei gynnwys yn y diffiniad. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw fynegiant o gred ystyried yr hawliau a sensitifeddau rhesymol eraill a bydd beth sy'n briodol yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mae dadl iach yn gwbl dderbyniol, fodd bynnag nid yw unrhyw ymgais i fwlio neu orfodi eraill i gydymffurfio â system gred athronyddol neu grefydd benodol yn dderbyniol, nac ychwaith yw unrhyw ymgais i fwlio neu orfodi eraill i wrthod unrhyw system gred athronyddol neu grefydd.

**Rhyw**

Dyn neu ddynes. Gall gwahaniaethu ar sail rhyw fod yn uniongyrchol - trin rhywun yn llai ffafriol ar sail ei ryw - neu'n anuniongyrchol - cymhwyso rheol ymddangosiadol gyffredinol sydd, ar waith, yn rhoi un rhyw dan anfantais ac na ellir ei gyfiawnhau. Mae gan ferched a dynion hawl am dâl cyfartal ac amodau gwaith cyfartal. Ymdrinnir â holl delerau ac amodau cyflogaeth, gan gynnwys unrhyw arfer sy'n cynnwys cymhwyso 'darpariaeth, maen prawf neu arfer' sydd, er ei fod yn berthnasol i ddynion a merched yn gyfartal, yn rhoi un rhywedd dan anfantais ac nad yw'r cyflogwr yn gallu dangos i fod yn ddull cymesurol o gyflawni nod cyfreithiol. Un enghraifft fyddai gofyniad i weithio llawn amser, neu newid oriau gwaith penodedig, sy'n ymddangos o fod o fudd i'r sefydliad ond gallai roi mamau sy'n gweithio dan anfantais sylweddol, ac felly yn cael effaith anghymesurol ar ferched mewn cymhariaeth â dynion.

**Cyfeiriadedd rhywiol**

Boed atyniad rhywiol unigolyn tuag at ei ryw ei hun, y rhyw arall neu'r ddau ryw. Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n anghyfreithlon i gyrff cyhoeddus wahaniaethu yn erbyn unigolyn oherwydd ei fod yn aelod o'r gymuned LGBTQ+, hynny yw lesbiad (menywod sy'n cael eu hatynnu at fenywod eraill), hoyw (dynion sy'n cael eu hatynnu at ddynion eraill), deurywiol (dynion neu fenywod sy'n cael eu hatynnu at y ddau ryw), trawsrywiol (unigolyn nad yw eu hymdeimlad o hunaniaeth bersonol a rhywedd yn cyd-fynd â'u rhyw enedigol), neu unigolyn sy'n adnabod eu hun fel Cwiar (term ymbarél ar gyfer grwpiau rhywiol a lleiafrifoedd rhywedd nad ydynt yn heterorywiol neu'n gisryweddol). Mae agweddau negyddol tuag at bobl neu grwpiau LGBTQ+ wedi arwain at nifer o bobl yn cuddio eu cyfeiriadedd rhywiol rhag eu teulu, cyfeillion a chydweithwyr ers blynyddoedd. Yn ogystal, caiff homoffobia ei gymhlethu oherwydd ei fod yn digwydd yn sgil canfyddiad y sawl sy'n homoffobig am gyfeiriadedd rhywiol y dioddefwr neu gysylltiad y dioddefwr gydag unigolyn sy'n LGBTQ+, ac felly gall fod yn broblem ddifrifol i'r gymuned ehangach.

**Amcanion, camau gweithredu ac amserlen CDCCymru**

Mae ein hamcanion cydraddoldeb yn pwysleisio meysydd o anghydraddoldeb o ran yr hyn yr ydym yn ei ddarparu, sut ydym yn darparu a sut ydym yn recriwtio. Mae'r amcanion cydraddoldeb yn cynnwys camau gweithredu i gyflawni canlyniadau penodol, mesuradwy i leihau anghydraddoldebau ar draws bob un o'r nodweddion gwarchodedig. Bydd ein hamcanion newydd yn ein helpu ni i gael gwared ar wahaniaethu, hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a mabwysiadu perthnasoedd da rhwng cymunedau. Byddwn yn penodi hyrwyddwr cydraddoldeb ymhlith ein staff a'n bwrdd - â'u swydd nhw yw codi ymwybyddiaeth o anghenion y rheiny sydd â nodweddion gwarchodedig.

**Llwyddiannau Allweddol o CCS 2 ym mlwyddyn 1 (2020-2021)**

- **Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl** wedi'i fynychu gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau, y Cyfarwyddwr Cyfathrebu a'r Cynhyrchydd Cyfranogi
- Cyflwyno dau **hwb Dawns ar gyfer Parkinson's** yng ngogledd Cymru
- **Fersiynau clywedol ac iaith arwyddion Prydain** wedi'u darparu o hysbysebion a phecynnau recriwtio Cyfarwyddwr Artistig ac Ymddiriedolwyr
- **Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd Cymraeg a dehongli iaith arwyddion Prydain** wedi'i ddarparu yn y digwyddiad ar-lein, Ardal Agored
- Hyrwyddo **diwrnod #AmseriSiarad** ar y cyfryngau cymdeithasol - ymgyrch i gael ein cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid i siarad am eu hiechyd meddwl
- **Gweithio gydag artistiaid o gefndiroedd amrywiol** i gynhyrchu 12 ffilm fer Plethu/Weave
- **Adnoddau iechyd meddwl** wedi'u darparu ar gyfer y Cwmni drwy Teams
- Pob print wedi'i greu mewn **print mawr a chyferbyniad uchel**
- **Isdeitlau i bob cynnwys fideo** wedi'u creu mewn iaith safonol
- Gweithdai wedi'u creu gyda chyfranogwyr **ar eu heistedd ac yn sefyll mewn golwg**
- **Cyflwyno modd tywyll** ar y wefan i helpu'r rheiny sydd â golwg gwael ac yn ei chael hi'n anodd gydag amser o flaen sgrin
- **Gwella mynediad at y Tŷ Dawns**, gan adnewyddu a symud arwyddion

**Amcan CCS 2 (2021-2024)**

OED

Mae'r rhaglen cyfranogi yn cyrraedd ystod eang o bobl hŷn (e.e. rhaglenni Dawns ar gyfer Parkinson's) a phobl ieuengach (Darganfod Dawns a gwaith Llysgenhadon Dawns) a phobl rhwng 25 a 55 oed (rhaglen dosbarthiadau gyda'r nos a gwaith Llysgenhadon Dawns).

| Sefyllfa Bresennol | Beth | Sut | Erbyn Pryd/ Prif Gyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| Darpariaeth i bobl hŷn yn cael ei darparu drwy brosiect Dawns ar gyfer Parkinson's. Dau grŵp yn rhedeg yn ne Cymru, a 2 grŵp dan brawf yng | Cynyddu cyfranogiad pobl hŷn o 50% ar y cyfan | Sefydlu Rhaglen Dawns ar gyfer Parkinson's newydd yng Ngholeg Cambria Wrecsam a Pontio, Bangor, yn llawn yn ogystal â chynnydd pellach yn y Coed-duon a Chaerdydd | Erbyn mis Mawrth 2022 / Cynhyrchydd Dysgu a Chyfranogi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ngogledd Cymru (Caerdydd, Coed-duon, Wrecsam a Bangor).<br>Cymysgedd o ddarpariaeth ar-lein ac wyneb yn wyneb | | | |
| Grŵp o 18 o Aelodau Cyswllt de Cymru yn cyfarfod yn wythnosol yn ystod y tymor<br><br>Rhaglen Darganfod Dawns yn ategu gwaith ar daith i blant 7-11 oed<br><br>7 Llysgennad Dawns yn gwasanaethu 7 Lleoliad yng Nghymru. Ystod o weithdai i bobl ifanc yn cael eu cynnig | Cynyddu cyfranogiad pobl ieuengach o 25%<br><br>Mwy o ysgolion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn economaidd o Gymru yn cymryd rhan mewn dawns<br><br>Cyrraedd 25 ysgol arall ledled Cymru yn yr ardaloedd mwyaf ynysig a difreintiedig drwy ffyrdd byw a/neu ddigidol | Amrywio rhaglenni Darganfod Dawns i gynnwys cynulleidfaoedd ieuengach (4-7 oed) ledled Cymru;<br><br>Treialu hwb Aelodau Cyswllt newydd (cwmni ieuenctid) yng ngogledd Cymru, yn 21-22. Sefydlu grŵp ar sail barhaus yn 22-24 ar gyfer 15 o ddawnswyr (12-19 oed);<br><br>Treialu grŵp o aelodau cyswllt yn cyfarfod ar brynhawn Sadwrn bob mis yn y Tŷ Dawns. Grŵp a dargedir yn benodol i'w gytuno, awgrymir bechgyn 10-14 oed<br><br>Cynyddu ystod y grwpiau ysgol rydym yn gweithio â nhw<br><br>Ymgysylltu byw a digidol â demograffeg fwy amrywiol ledled Cymru, yn amodol ar gyfyngiadau Covid-19 yn cael eu llacio | Erbyn mis Mawrth 2024 / Cynhyrchydd Dysgu a Chyfranogi |
| Ffurflenni Cyfle Cyfartal yn cael eu cylchredeg i bob prosiect a data yn cael ei goladu | Amrywio ystod oedran y dawnswyr ac artistiaid ar gyfer prosiectau penodol | Casglu data sylfaen<br><br>Recriwtio ystod oedran fwy amrywiol ymhlith dawnswyr ac artistiaid ar gyfer ymchwil a datblygu, Laboratori a gwaith yn yr awyr agored | Erbyn mis Awst 2021/ Cyfarwyddwr Gweithrediadau<br><br>Blwyddyn ar ôl blwyddyn / Cyfarwyddwr Artistig |

| | 7 NOD DLlCD | **Cymru Fwy Cyfartal, Cymru â Diwylliant Bywiog, Cymru Lewyrchus a Chymru Iachach:** Mwy o amrywiaeth yn oed y bobl sy'n cymryd rhan mewn dawns ac sy'n cael eu cyflogi yn y maes dawns |
|---|---|---|

**ANABLEDD**
Byddwn yn sicrhau bod y Tŷ Dawns yn hygyrch a diogel ar gyfer pobl fyddar ac anabl - boed hynny fel cynulleidfaoedd, cyflogeion neu gontractwyr - a byddwn yn adolygu a monitro ein harferion i gydymffurfio ag unrhyw newidiadau yn y ddeddfwriaeth ehangach, yn arbennig Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys gwneud addasiadau rhesymol i isadeiledd yr adeilad lle bynnag mae hynny'n angenrheidiol. Mae'r rhaglen cyfranogi yn cyrraedd ystod eang o bobl anabl ieuengach a hŷn, drwy Darganfod Dawns, y rhaglen Dawns ar gyfer Parkinson's a Dawns i Iechyd. Mae'r Cwmni wedi dechrau rhaglennu perfformiadau Darganfod Dawns drwy iaith arwyddion Prydain ond hyd yn hyn dim mathau o eraill o berfformiadau deongledig.

| Sefyllfa Bresennol | Beth | Sut | Erbyn Pryd/ Prif Gyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| Caiff nifer o berfformiadau byw a digidol eu rhaglennu drwy iaith arwyddion Prydain a/neu eu sgrindeitlo bob blwyddyn<br><br>Dim perfformiadau gyda sain ddisgrifiad na pherfformiadau anffurfiol hyd yn hyn.<br><br>Cyllideb ar gyfer perfformiadau deongledig wedi cynyddu o £1,000 i £3,000 y flwyddyn<br><br>Sicrhawyd bod dogfennau recriwtio diweddar ar gael yn iaith arwyddion Prydain, yn glywedol ac mewn print trwm | Ymestyn perfformiadau deongledig a hygyrch (iaith arwyddion Prydain, disgrifiad clywedol, perfformiadau anffurfiol etc.) i'r holl deithiau, gan gynyddu i 4 perfformiad deongledig y flwyddyn ac ymrwymo i berfformiadau anffurfiol. Gweler y bennod Cynllun Busnes 'Pob Mathau o Bobl' | Cynyddu cyllideb mynediad o 20% y flwyddyn, i alluogi rhagor o berfformiadau deongledig; ffurfiau ychwanegol a newydd o farchnata a hyrwyddo i dargedu cynulleidfaoedd perthnasol<br><br>Ymrwymo i greu gwybodaeth hyrwyddol ar ffurfiau mwy hygyrch, megis ffurfiau sy'n rhwydd eu darllen a mabwysiadu safonau Saesneg Syml<br><br>Sicrhau bod eglurhad i bob allbwn digidol. Yr holl farchnata digidol ar gyfer perfformiadau iaith arwyddion Prydain yn cael ei gefnogi gan iaith arwyddion Prydain | Blwyddyn ar ôl blwyddyn/ Cynhyrchydd Dysgu a Chyfranogi<br><br>Medi 21/ Cyfarwyddwr Cyfathrebu<br><br>Blwyddyn ar ôl blwyddyn/ Rheolwr Ymgyrchoedd Marchnata |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Wedi comisiynu nifer o artistiaid anabl i greu gwaith digidol yn ystod 20/21 | Gwneud perfformiadau dawns cynhwysol. Gweler y bennod Cynllun Busnes 'Gweledigaeth a Chynllun Artistig' | Sicrhau bod prosesau'r clyweliadau a chyfweliadau yn agored i bobl sydd ag anabledd ac ymchwilio i gyfleoedd i sicrhau bod prosiectau yn cynnwys perfformwyr anabl<br><br>Darparu taith Esgyrn ac Ocrau i ddawnswyr anabl a dawnswyr nad ydynt yn anabl drwy gydweithio â chwmnïau integredig<br><br>Datblygu prosiect creadigol gyda pherfformwyr anabl nad ydynt yn broffesiynol, e.e. Ffilm 'Reflections', mewn prosiect i ddawnswyr Dawns ar gyfer Parkinson's yn yr Wyddgrug<br><br>Sicrhau bod straeon/delweddau/negeseuon marchnata ynglŷn â gwaith y Cwmni yn gynhwysol | Erbyn mis Ionawr 2021/ Cyfarwyddwr Artistig<br><br>Erbyn diwedd 2023/ Cyfarwyddwr Artistig<br><br>Erbyn diwedd 2023/ Cyfarwyddwr Artistig<br><br>Blwyddyn ar ôl blwyddyn/ Cyfarwyddwr Cyfathrebu |
| Addasiadau i'r Tŷ Dawns wedi'u hoedi yn sgil Covid-19, wedi'u cynnwys yng nghyllideb 21/22 | Gwella mynediad at y Tŷ Dawns i bobl anabl | Gwneud newidiadau i arwyddion a marciau ffordd ar gyfer y Tŷ Dawns ar gyfer pobl sydd â nam ar y golwg ac anableddau corfforol a/neu wahaniaeth niwro yn unol â chanllawiau hygyrchedd<br><br>Ymchwilio i ddichonolrwydd gwelliannau ffisegol i'r Tŷ Dawns i wella hygyrchedd ar gyfer pobl fyddar ac anabl | Erbyn mis Ebrill 2022/ Cyfarwyddwr Gweithrediadau |
| | 7 NOD DLlCD | **Cymru Fwy Cyfartal, Cymru â Diwylliant Bywiog a Chymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang:** Mwy o amrywiaeth o bobl ynghlwm â gwneud a mwynhau dawns, gan wneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant pobl | |

AILBENNU RHYWEDD

| Sefyllfa Bresennol | Beth | Sut | Erbyn Pryd/ Prif |
|---|---|---|---|

| | | | Gyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| Gwybodaeth a phecyn recriwtio wedi'u diweddaru ac ymgyrchoedd diweddar yn fwy penodol | Gwella prosesau recriwtio a pholisïau'r Cwmni i adlewyrchu anghenion y rheiny nad yw eu hunaniaeth yn cyd-fynd â'u rhywedd genedigol | Hysbysu'n weithredol parodrwydd i wneud addasiadau rhesymol i'r gweithle/rolau i fodloni anghenion pobl benodol | Blwyddyn ar ôl blwyddyn/ Cyfarwyddwr Gweithrediadau |
| Cynllun hyfforddiant parhaus a mwy cynhwysol yn cael ei ddatblygu. Trefnu hyfforddiant penodol yn 2021<br><br>Addasiadau i'r Tŷ Dawns wedi'u hoedi yn sgil Covid-19, wedi'u cynnwys yng nghyllideb 21/22<br><br>Gwerthoedd wedi'u mewnosod yn ymgyrchoedd recriwtio newydd. Ailedrych ar y gyfres lawn o ddogfennau yn haf 2021 | Myfyrio ar gynhwysiad y rheiny nad yw eu hunaniaeth yn cyd-fynd â'u rhyw enedigol | Trefnu hyfforddiant (Stonewall) i'r Cwmni er mwyn ennill dealltwriaeth well o iaith a chamau gweithredu i sicrhau ein bod mor gynhwysol â phosibl<br><br>Trefnu addasiadau ffisegol i'r Tŷ Dawns<br><br>Adolygu gwerthoedd i sicrhau bod anghenion y nodweddion gwarchodedig yn cael eu cadw a'u mewnosod yn holl gynlluniau a gweithgareddau'r cwmni. | Erbyn mis Medi 2021/ Cyfarwyddwr Gweithrediadau<br><br>Erbyn mis Ebrill 2022/ Cyfarwyddwr Gweithrediadau<br><br>Erbyn mis Hydref 2021/ Cyfarwyddwr Gweithrediadau |
| | 7 NOD DLlCD | **Cymru Fwy Cyfartal, Cymunedau Mwy Cydlynol a Chymru Iachach:** Creu amgylchedd a diwylliant agored, goddefgar a diogel yn y gwaith i bobl nad yw eu hunaniaeth yn cyd-fynd â'u rhyw enedigol | |

PRIODAS A PHARTNERIAETH SIFIL

| Sefyllfa Bresennol | Beth | Sut | Erbyn Pryd/ Prif |
|---|---|---|---|

| | | | Gyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| Gwybodaeth a phecyn recriwtio wedi'u diweddaru ac ymgyrchoedd diweddar yn fwy penodol | Sicrhau bod y manteision sy'n cael eu rhoi i gyflogeion mewn priodas heterorywiol/ cyflogeion mewn partneriaeth sifil yn cael eu cynnig i gyflogeion mewn priodas o'r un rhyw/ partneriaeth sifil hefyd | Sicrhau bod deunyddiau recriwtio yn parhau i wneud polisïau Cyfeillgar i Deuluoedd yn glir<br><br>Adolygu polisïau'r Cwmni a'r llawlyfr staff i sicrhau cydymffurfiad | Blwyddyn ar ôl blwyddyn/ Cyfarwyddwr Gweithrediadau<br><br>Erbyn mis Hydref 2021/ Cyfarwyddwr Gweithrediadau |
| | 7 NOD DLlCD | **Cymru Iachach a Mwy Cyfartal:** Creu amgylchedd a diwylliant agored, goddefgar a diogel yn y gwaith | |

BEICHIOGRWYDD A MAMOLAETH

| Sefyllfa Bresennol | Beth | Sut | Erbyn Pryd/ Prif Gyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| Gwybodaeth a phecyn recriwtio wedi'u diweddaru ac ymgyrchoedd diweddar yn fwy penodol | Sicrhau bod pawb yn cael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd, IVF a mamolaeth yn ystod eu beichiogrwydd, IVF ac unrhyw gyfnod mamolaeth statudol y mae ganddynt hawl iddo | Hysbysu'n weithredol parodrwydd i wneud addasiadau rhesymol i'r gweithle/rolau i fodloni anghenion pobl benodol<br><br>Adolygu gwerthoedd y Cwmni er mwyn sicrhau bod anghenion y Nodweddion Gwarchodedig yn cael eu cadw | Blwyddyn ar ôl blwyddyn/ Cyfarwyddwr Gweithrediadau<br><br>Erbyn mis Hydref 2021/ Cyfarwyddwr Gweithrediadau |
| | 7 NOD DLlCD | **Cymru Iachach a Mwy Cyfartal:** Bod yn weithredol gefnogol o bobl feichiog a phobl sydd ar absenoldeb mamolaeth | |

HIL

Mae'r adran hon o'r cynllun yn ymwneud â: Phobl o dras Affricanaidd ar wasgar; Pobl De, Dwyrain a De-ddwyrain Asia ar wasgar; Pobl Gogledd Affrica a'r Dwyrain Canol, a phobl o gefndir ethnig amrywiol arall. Mewn geiriau eraill, pobl sy'n dioddef hiliaeth.

Mae mwy o ffocws wedi bod ar recriwtio staff, dawnswyr ac ymddiriedolwyr o gefndiroedd amrywiol (14% o'r gweithlu ar hyn o bryd). Fodd bynnag, 3% yw'r gyfran o'n cynulleidfa sy'n bobl o dras Affricanaidd ar wasgar; Pobl De, Dwyrain a De-ddwyrain Asia ar wasgar; Pobl Gogledd Affrica a'r Dwyrain Canol, a phobl o gefndir ethnig amrywiol arall, ac mae'r ffigwr hwn yn isel iawn. Mae oddeutu 7% o boblogaeth Cymru a bron i 20% o boblogaeth Caerdydd o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd a dyma ein targed, yn nhermau cynulleidfaoedd a staff. Dim ond os ydym yn creu newid yn ein ffordd o weithio, yn y gwaith a gyflwynwn, a'r graddau y gallwn ddod yn sefydliad gwrth-hiliaeth yn weithredol, y bydd y newid ar y raddfa hon yn ein sylfaen cynulleidfa yn digwydd.

| Sefyllfa Bresennol | Beth | Sut | Erbyn Pryd/ Prif Gyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| Mae 3% o gynulleidfaoedd yng Nghymru o'r grwpiau amrywiol o ran ethnigrwydd a amlinellir. Mae hyn wedi tyfu 1% ers 3 blynedd yn ôl ond mae'n dal yn llai na hanner caran boblogaeth Cymru. | Yn unol â data pennawd Cymru, sicrhau bod 7% o gynulleidfaoedd/cyfranogwyr y DU o'r grwpiau amrywiol o ran ethnigrwydd a adnabuwyd o dan yr adran hon. Gweler pennod 'Pob Mathau o Bobl' y Cynllun Busnes | Ffocysu marchnata ar dargedu cynulleidfaoedd o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd mewn trefi a dinasoedd amlddiwylliannol penodol yn nheithiau ledled Cymru a'r DU yn ehangach<br><br>Cyflawni datblygiad cynulleidfa hirdymor drwy gynnal prosiectau sy'n targedu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn benodol mewn trefi a dinasoedd amlddiwylliannol yng Nghymru | Erbyn mis Mawrth 2024/ Cyfarwyddwr Cyfathrebu<br><br>Erbyn mis Mawrth 2022/ Cynhyrchydd Dysgu a Chyfranogi |
| Mae twf wedi bod yn y staff ac aelodau Bwrdd o gefndir amrywiol o ran ethnigrwydd dros y 3 blynedd diwethaf, ac mae 14% o'r holl weithlu yn amrywiol o ran ethnigrwydd bellach. Cyflawnwyd hyn drwy dargedu a recriwtio gweithredol, a sicrhau bod negeseuon a rhaglenni yn | Cyflawni 20%* o gyflogeion o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd cyn pen 3 blynedd<br><br>*Mae hyn yn adlewyrchu canran gyfredol poblogaeth Caerdydd (2020) sydd o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd, ond bydd hyn yn newid, a nod y Cwmni yw | Sicrhau rhestr fer amrywiol ar gyfer yr holl swyddi/cyfleoedd recriwtio drwy ymgymryd â Chwiliadau Gweithredol sy'n targedu ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol o ran ethnigrwydd. Cymryd camau gweithredu cadarnhaol i sicrhau'r rhestr ymgeiswyr fwyaf amrywiol bosibl<br><br>Creu cyfle profiad gwaith penodol ar gyfer aelod o staff o un o'r grwpiau a adnabuwyd gyda phrofiad gwaith gwarantedig yn para blwyddyn ac yna swydd<br><br>Parhau i hyfforddi'r holl staff a'r bwrdd sydd ynghlwm â recriwtio, mewn | Blwyddyn ar ôl blwyddyn/ Cyfarwyddwr Gweithrediadau<br><br>Erbyn mis Rhagfyr 2021/ Prif Weithredwr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| adlewyrchu cymunedau rydym yn dymuno eu denu. | adlewyrchu'r ganran sy'n newid | perthynas â hyfforddiant gwrth-hiliaeth a recriwtio a dethol teg.<br>Ymchwilio i hyfforddiant a sicrhau dysgu parhaus | Blwyddyn ar ôl blwyddyn/ Cyfarwyddwr Gweithrediadau |
| Mae ymddiriedolwyr newydd wedi cael eu recriwtio yn cynnwys y rheiny o gefndir amrywiol o ran ethnigrwydd, a byddant yn dechrau yn 2021. Mae'n debygol y byddwn yn cyflawni ein targed o 30% yn 2021 neu 2022. | Cynyddu o 10% (1 ymddiriedolwr) i 30% (3 ymddiriedolwr) o un o'r grwpiau a adnabuwyd ar y bwrdd | Sicrhau rhestr fer amrywiol drwy ymgymryd â Chwiliadau Gweithredol sy'n targedu ymgeiswyr o gefndir amrywiol o ran ethnigrwydd. Cymryd camau gweithredu cadarnhaol i sicrhau'r rhestr ymgeiswyr fwyaf amrywiol bosibl<br><br>Ymrwymo i lenwi un o'r swyddi bwrdd newydd gan ymgeisydd o gefndir amrywiol o ran ethnigrwydd. | Erbyn mis Medi 2022/ Cadeirydd y bwrdd<br><br>Erbyn mis Ionawr 2021/ Cadeirydd y bwrdd |
| Mae'r tîm dawns yn amrywio eu techneg yn raddol, y mae cyflymder hyn wedi'i lesteirio gan Covid a methu â chael dawnswyr yn y stiwdio yn ffisegol | Mynegi ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynnwys gwahanol ddiwylliannau drwy ymrwymo i 6 wythnos o addysgu'r flwyddyn am wahanol arddulliau dawnsio heblaw am bale a chyfoes | Cynyddu'r gyllideb addysgu o £1,200 y flwyddyn<br><br>Ymrwymo i un wythnos o bob arddull wahanol, er enghraifft/gan gynnwys y canlynol: Affricanaidd, Clasurol Indiaidd, Butoh, Dawns stryd, Flamenco, Ciwbaidd | Erbyn mis Mawrth 2022/ Cyfarwyddwr Artistig<br><br>Erbyn mis Mawrth 2022/ Cyfarwyddwr Artistig |
| Mae amrywio'r tîm yn ein galluogi i gynrychioli Cymru gyfoes yn fwy llawn ac effeithiol. Mae hyn yn bennaf mewn perthynas â'r tîm dawns, lle mae trosiant yn uwch sydd wedi | Cynnal amrywiaeth weladwy ymhlith cyflogeion y Cwmni, yn enwedig dawnswyr | Ceisio cyfleoedd i gyfleu amrywiaeth ethnig gyfredol y Cwmni, wrth osgoi bod yn docenistaidd | Blwyddyn ar ôl blwyddyn/ Cyfarwyddwr Cyfathrebu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| caniatáu ar gyfer mwy o amrywiaeth ethnig yn y tîm. | | | |
| | 7 NOD DLlCD | **Cymru Fwy Cyfartal, Cymunedau Mwy Cydlynol a Chymru â Diwylliant Bywiog:** Sicrhau bod cyfran uwch o'n staff, bwrdd a chynulleidfaoedd/cyfranogwyr o gefndir du, Asiaidd a chefndiroedd ethnig | |

CREFYDD A CHRED (a di-gred)

| Sefyllfa Bresennol | Beth | Sut | Erbyn Pryd/ Prif Gyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| Ailedrych ar ddogfennau yn Haf 2021 | Creu amgylchedd a diwylliant sy'n sensitif i grefydd a chredoau pobl | Adolygu gwerthoedd y Cwmni er mwyn sicrhau bod anghenion y nodweddion gwarchodedig yn cael eu cadw | Erbyn mis Hydref 2021/ Cyfarwyddwr Gweithrediadau |
| | 7 NOD DLlCD | **Cymunedau Mwy Cydlynol a Chymru Iachach:** Cymdeithas lle caiff llesiant meddyliol ei uchafu a chaiff dewisiadau ac ymddygiadau eu deall | |

**RHYW**

Mae gan y Cwmni gydbwysedd da o ymddiriedolwyr a staff gwrywaidd a benywaidd (gweler atodiad), er bod angen parhau'n wyliadwrus o ran tâl cymharol i ddynion a merched. Mae ein cynulleidfa, fel nifer o gwmnïau dawns, ar y cyfan yn fenywaidd (oddeutu 63%) Mae 95% o bobl sy'n mynychu ein rhaglen waith ar gyfer dawnswyr dawnus yn fenywod. Mae hyn yn welliant ar flynyddoedd blaenorol, ond mae'n pwysleisio'r stigma parhaus sydd ynghlwm â dawns ar gyfer bechgyn a dynion ifanc yng Nghymru, sydd angen cryn dipyn o waith er mwyn cyrraedd sefyllfa gweddill y DU lle mae rhaglenni dawns ar gyfer bechgyn a dynion ifanc wedi datblygu ymhellach. Bydd y newidiadau hyn yn cymryd amser i'w cyflawni, sy'n golygu bod y targedau sydd wedi'u gosod ar gyfer cynhwysiad mewn cyfranogiad yn is na 50%, ond yn cael eu hystyried yn realistig gan fod angen i'r sector gyflwyno newid sylweddol.

| Sefyllfa Bresennol | Beth | Sut | Erbyn Pryd/ Prif Gyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| | Sicrhau tâl cyfartal i ddynion a | Ymgymryd â chyfrifiadau 'bwlch cyflog rhwng y rhywiau' blynyddol ac adrodd i'r bwrdd | Erbyn mis Ebrill 2022/ Cyfarwyddwr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | menywod | | Gweithrediadau |
| Gwaith 2020/21 wedi'i guradu fel un rhaglen yn hytrach na phrosiectau unigol i gyflawni cynrychiolaeth decach. | Cyflawni cyfle cyfartal i brosiectau sy'n cael eu harwain gan fenywod gan anelu at gyflawni cynrychiolaeth o 50% | Ymwybyddiaeth o gynrychiolaeth menywod yn cael ei mewnosod wrth greu gwaith a rhaglenni | Blwyddyn ar ôl blwyddyn / Cyfarwyddwr Artistig |
| Mae 5.5% o'n grŵp aelodau cyswllt presennol yn ddynion. Mae rhaniad hanner a hanner rhwng y rhywiau ar y rhaglen Dawns ar gyfer Parkinson's<br><br>O ganlyniad i Covid-19 nid oes unrhyw ddarpariaeth dysgu a chyfranogi yn benodol i ryw yn cael ei chynnal ar hyn o bryd | Cyflawni cyfleoedd cyfartal i ddynion a bechgyn sy'n cymryd rhan mewn dawns ar bob lefel, gan anelu at gyflawni cyfranogiad o 25% | Datblygu rhaglenni gwaith newydd i ddawnswyr gwrywaidd ifanc, gan gynnwys:<br><br>Cynyddu'r gymhareb o ferched/dynion yn y grŵp aelodau cyswllt<br><br>Cynnal prosiect Diwrnodau Dawns gan dargedu bechgyn yn benodol<br><br>Adolygu deunyddiau hyrwyddol i sicrhau bod yr holl ddelweddaeth a chopi yn apelio at ddynion yn ogystal â merched, gan osgoi tueddiadau rhywedd diarwybod<br><br>Ceisio cyfleoedd i roi straeon/delweddau/negeseuon marchnata ynglŷn â chyfraniad dawnswyr gwrywaidd yn y Cwmni | Erbyn 2025<br><br>Cynhyrchydd Dysgu a Chyfranogi<br><br>Rheolwr Ymgyrchoedd Marchnata<br><br>Cyfarwyddwr Cyfathrebu |
| Rhaglen 20/21 i gyd ar-lein. Dim ond ar 16% o ddefnyddwyr y wefan y gellir adrodd, ac o'r defnyddwyr hyn mae 35% yn ddynion. Mae 25% o ddilynwyr IG a 26% o ddilynwyr Facebook yn ddynion, nid yw Twitter yn rhannu data ynghylch cynulleidfa mwyach | Cynyddu dynion fel cyfran o'r gynulleidfa o 37% i 45% | Adolygu deunyddiau hyrwyddol i sicrhau bod yr holl ddelweddaeth a chopi yn apelio at ddynion yn ogystal â merched, gan osgoi tueddiadau rhywedd diarwybod | Erbyn mis Ebrill 2023/ Rheolwr Ymgyrchoedd Marchnata |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *noder, ar hyn o bryd dim ond ar y rhaniad rhwng y rhywiau gwryw/benyw y mae'r holl ffynonellau cyfryngau digidol yn adrodd. | | | |
| | 7 NOD DLlCD | **Cymunedau Mwy Cydlynol, Cymru Lewyrchus a Chymru Fwy Cyfartal:** Poblogaeth fedrus a hyddysg a chyfartal oherwydd cyfle gwell i chwarae rhan lawn ym mywyd diwylliannol Cymru | |

CYFEIRIADEDD RHYWIOL

Mae sylfaen staff LGBQ+ y cwmni yn cynyddu. Gallai codi proffil y gyfran uchel o staff LGBQ+ gynnig esiamplau cadarnhaol ac amgylchedd cadarnhaol i gefnogi cyfranogiad LGBQ+ yn nawns ymhlith y boblogaeth ehangach.

| Sefyllfa Bresennol | Beth | Sut | Erbyn Pryd/ Prif Gyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| Ymchwilio i gofrestru fel Hyrwyddwr Amrywiaeth<br><br>Heb ddechrau gweithgarwch dysgu a chyfranogi eto<br><br>Ymchwilio i negeseuon priodol ar gyfer bod yn hyrwyddwyr i'n cymunedau LGBQ+. | Cefnogi pobl LGBQ+ sydd eisiau dawnsio a gwylio dawns ledled Cymru | Cofrestru i ddod yn Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall i hyrwyddo cydraddoldeb lesbiad, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yn y gweithlu<br><br>Archwilio rhaglen dysgu digidol newydd a darpariaeth gweithdai ffisegol sy'n canolbwyntio ar hunaniaeth o ran rhywedd a chymunedau LGBQ+<br><br>Ceisio cyfleoedd i roi straeon/delweddau/negeseuon marchnata ynglŷn â gwaith/cynulleidfaoedd amrywiol y Cwmni | Erbyn mis Rhagfyr 2021/ Cyfarwyddwr Gweithrediadau<br><br>Erbyn mis Mawrth 2022/ Cynhyrchydd Dysgu a Chyfranogi<br><br>Blwyddyn ar ôl blwyddyn/ Cyfarwyddwr Cyfathrebu |
| | 7 NOD DLlCD | **Cymunedau Mwy Cydlynol, Cymru â Diwylliant Bywiog a Chymru Fwy Cyfartal:** Arwain at | |

| | | |
|---|---|---|
| | | gymdeithas ddiogel gyda chysylltiadau cryf drwy ymgysylltu â dawns |

ATODIAD 1 - Proffil y gweithlu ac ymddiriedolwyr

| **RHYW** | Ebrill 2020 | % | Ebrill 2021 | % | 23/24 % | **CYFEIRIADED D RHYWIOL** | Ebrill 2020 | % | Ebrill 2021 | % | 23/24 % | **ANABLED D** | Ebrill 2020 | % | Ebrill 2021 | % | 23/24 % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwryw | 12 | **32** | 11 | **29** | 45 | Heterorywiol | 22 | **59** | 26 | **69** | 55 | Dim anabledd | 29 | **78** | 33 | **87** | 75 |
| Benyw | 24 | **65** | 26 | **68** | 53 | LGBTQ+ | 11 | **30** | 10 | **26** | 40 | Anabl | 6 | **17** | 5 | **13** | 21 |
| Byddai'n well gennyf beidio â dweud | 1 | **3** | 1 | **3** | 2 | Byddai'n well gennyf beidio â dweud | 4 | **11** | 2 | **5** | 5 | Byddai'n well gennyf beidio â dweud | 2 | **5** | 0 | **0** | 4 |
| Cyfanswm | 37 | **100** | 38 | **100** | 100 | Cyfanswm | 37 | **100** | 38 | **100** | 100 | Cyfanswm | 37 | **100** | 38 | **100** | 100 |

| **HIL** | Ebrill 2020 | % | Ebrill 2021 | % | 23/24 % | **OED** | Ebrill 2020 | % | Ebrill 2021 | % | 23/24 % | **CREFYDD A CHRED** | Ebrill 2020 | % | Ebrill 2021 | % | 23/24 % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Affricanaidd | 1 | **3** | 1 | **3** | 6 | 16-24 | 7 | **19** | 8 | **21** | 20 | Cristion | 7 | **19** | 7 | **18** | 20 |
| Du Caribïaidd | 1 | **3** | 1 | **3** | 7 | 25-34 | 14 | **37** | 14 | **37** | 27 | Bwdhaidd | 1 | **3** | 1 | **3** | 5 |
| Cefndir ethnig Cymysg/ | 3 | **8** | 3 | **8** | 8 | 35-44 | 7 | **19** | 10 | **26** | 22 | Anffyddiaeth | 23 | **62** | 26 | **68** | 55 |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aml-ethnig arall | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gwyn Prydeinig | 26 | **69** | 27 | **70** | 64 | 45-49 | 3 | **8** | 2 | **5** | 14 | Arall | 1 | **3** | 0 | **0** | 8 |
| Unrhyw gefndir gwyn arall | 6 | **17** | 6 | **16** | 15 | 50+ | 6 | **17** | 4 | **11** | 17 | Byddai'n well gennyf beidio â dweud | 5 | **13** | 4 | **11** | 12 |
| Cyfanswm | 37 | **100** | 38 | **100** | 100 | Cyfanswm | 37 | **100** | 38 | **100** | 100 | Cyfanswm | 37 | **100** | 38 | **100** | 100 |